# Adolygiad Annibynnol Blwyddyn Trosglwyddo'r Rhaglen Cefnogi Pobl

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

Ymchwil crynodeb | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 86/2014

**Summary:**

Ym mis Mawrth 2014, comisiynwyd Miller Research Ltd. ar y cyd â Shelter Cymru gan Lywodraeth Cymru i gyflawni adolygiad annibynnol o'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn dilyn ei throsglwyddo i strwythurau newydd yn 2012. Nod yr ymchwil oedd adolygu'r amrywiol strwythurau sy'n cynnal y Rhaglen Cefnogi Pobl ers gweithredu'r rhaglen ar ei newydd wedd ym mis Awst 2012 a gwneud argymhellion ynghylch eu dyfodol.

**Amcanion a dull:**

Amcanion yr Adolygiad oedd:

i. Asesu effeithiolrwydd y gwaith o gynllunio rhaglenni a chomisiynu trefniadau ar gyfer Cefnogi Pobl, o safbwynt (ar lefel leol a lefel genedlaethol):
   - Y strwythur cynllunio a chomisiynu a'r gydberthynas rhwng trefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
   - Aelodaeth
   - Cynnwys a chyd-drafod
   - Effaith/dylanwad
   - Ymwybyddiaeth rhanddeiliaid
   - Gweithredu comisiynu rhanbarthol

ii. Adnabod yr arferion gorau ac enghreifftiau o arloesi.

iii. Adnabod meysydd lle mae angen gwella neu weithredu.

iv. Blaenoriaethu argymhellion ynghylch dyfodol y rhaglen.

Roedd y rhaglen ymchwil yn cynnwys: adolygiad desg o ddogfennau allweddol yn ymwneud â'r rhaglen; cyfweliadau lled-strwythuredig gydag 82 o unigolion

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r rhaglen ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol; a chyfweliadau grŵp / gweithdai gyda Cymorth Cymru, Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl a Chydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol.

**Canfyddiadau:**
Cydnabyddir potensial strwythurau ôl Aylward y Rhaglen Cefnogi Pobl ac mae ewyllys gref i beri bod cydweithredu a chyd-gynhyrchu yn gweithio er budd rhai o'r grwpiau mwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi cael eu canmol am sicrhau sylw amlycach i'r Rhaglen o fewn llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog a gyda sefydliadau partner statudol.

Ystyrir bod rôl y Bwrdd Cynghori yn allweddol wrth roi goruchwyliaeth ac arweiniad strategol i'r Rhaglen. Mae'n tynnu ei aelodaeth o amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid a phartneriaethau, er mai amrywiol yw dealltwriaeth a chyfraniad rhai aelodau. Mae canfyddiadau bod y Bwrdd Cynghori wedi chwarae gormod o ran ym manylion gweithredu'r Rhaglen a bod angen iddo roi mwy o arweiniad i'r Rhaglen.

Mae rôl a chylch gwaith Bwrdd Llywio'r Rhaglen yn aneglur, gydag awgrymiadau ei fod yn dyblygu llawer o'r trafodaethau a gynhelir yn y Bwrdd Cynghori. Er y caiff y ffrydiau gwaith eu gweld fel rhywbeth pwysig mae diffyg eglurder ynghylch eu haelodaeth, allbynnau, graddfeydd amser ac atebolrwydd.

Mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi dod ag amrywiaeth o randdeiliaid rhanbarthol, partneriaid darparu a sefydliadau partner statudol at ei gilydd. Mae diffyg eglurder ymysg rhai rhanddeiliaid ynghylch swyddogaeth y Pwyllgorau a'r disgwyliadau o ran eu perfformiad. Yn ogystal, mae canfyddiadau ei bod wedi bod yn ofynnol i'r Pwyllgorau hyn adrodd yn fynych (a hynny'n aml yn ddianghenraid) i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol heb fawr o adborth yn gyfnewid am

hynny. Mae egwyddorion lefel uchel y Rhaglen yn amwys ac mae wedi bod yn anodd i'r Pwyllgorau asesu eu perfformiad yn eu herbyn.

Mae graddau'r comisiynu rhanbarthol sydd wedi digwydd hyd yma wedi bod yn amrywiol ac wedi cael ei ddylanwadu gan drefniadau hanesyddol ar gyfer y Rhaglen ym mhob rhanbarth, gyda mwy o weithgaredd mewn ardaloedd gyda thraddodiad o weithio rhanbarthol fel Gogledd Cymru a Gwent.

Mae canfyddiad ynglŷn â'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol: nad oes ganddynt y grym na'r awdurdod i wneud penderfyniadau a dal aelodau i gyfrif (ee mae llawer o'r Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol presennol yn seiliedig ar gyfuno Cynlluniau Comisiynu Lleol); nad oes ganddynt y dealltwriaeth i graffu a herio gan nad yw'r holl aelodau'n deall y Rhaglen yn llawn a/neu'r cyd-destun strategol rhanbarthol yn ehangach; a'u bod yn cynyddu biwrocratiaeth a llwyth gwaith i lawer o'u haelodau.

Mae gan ardaloedd megis Gwent a Gogledd Cymru brofiad o weithio cydweithredol rhanbarthol cyn cyflwyno'r strwythurau ôl Aylward a gymerodd lawer o flynyddoedd i'w ddatblygu, ac o ganlyniad mae cydweithredu effeithiol ymysg aelodau Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol mewn ardaloedd eraill yn debyg o gymryd peth amser i sefydlu'i hun. Mae'r rhan fwyaf o weithgaredd y Pwyllgorau wedi bod yn ymwneud â datblygu dealltwriaeth aelodau, datblygu blaenoriaethau ac asesu angen gyda mwy o gynnydd yn cael ei wneud mewn Pwyllgorau lle mae traddodiad o weithio rhanbarthol wedi bod. Mae cynlluniau rhanbarthol ac isranbarthol wedi cael eu comisiynu neu eu hehangu ym Mhwyllgorau Cwm Taf, Gwent, y Canolbarth a'r Gorllewin a Gogledd Cymru.

Ystyrir bod aelodaeth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gynrychioliadol o randdeiliaid rhanbarthol; fodd bynnag mae diffyg consensws ynghylch a fyddai'n fwy buddiol i aelodau'r Pwyllgorau fod yn uwch swyddogion gyda gwybodaeth o

strategaethau rhanbarthol ehangach, a phwerau cyllidol ac i wneud penderfyniadau, neu'n swyddogion gweithredol gyda gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r Rhaglen. Mewn rhai Pwyllgorau, amrywiol yw cyfraniad a dealltwriaeth rhai aelodau sefydliadau partner statudol.

Ystyrir bod rôl drefniadol Cadeirydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (ee aelod cabinet, darparwr neu uwch swyddog) yn llai pwysig na'r angen i gael y sgiliau, gwybodaeth a'r cymwyseddau addas i gyflawni'r rôl.

Mae rôl y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol yn hanfodol i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, ond mae diffyg eglurder ynghylch y rôl ac amrywiaeth o ran ei swyddogaeth rhwng Pwyllgorau a'i gilydd.

Mae'r pwyslais ar gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y Rhaglen wedi cael ei gydnabod, er bod hyn wedi profi i fod yn anodd ei weithredu yn wyneb y ffaith fod cymaint o grwpiau cleientiaid. Mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau, gan fanteisio'n aml ar fforymau sy'n bod eisoes i gyrraedd at ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Argymhellion:**
Dylid cadw strwythurau presennol y Rhaglen Cefnogi Pobl ac ailedrych arnynt unwaith y bydd penderfyniadau wedi cael eu gwneud ynghylch yr argymhellion a wnaed gan Adolygiad Williams ynglŷn ag ad-drefnu llywodraeth leol.

Dylid egluro a chyfleu gweledigaeth strategol y Rhaglen. Bydd hyn yn cadarnhau strwythurau'r Rhaglen a'r ffordd y caiff ei llywodraethu, ei rheoli a'i gweithedu, ac yn mynd i'r afael â llawer o'r problemau presennol ynghylch arweiniad ac eglurder swyddogaeth. Argymhellir y camau canlynol:

- Ailddiffinio egwyddorion lefel uchel y Rhaglen a datblygu dangosyddion er mwyn gallu asesu perfformiad y Rhaglen a'r Pwyllgor

Cydweithredol Rhanbarthol yn eu herbyn.

- Egluro a chyfleu rolau a chyfrifoldebau Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.
- Adnabod a chyfleu arferion da wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau y gellir eu haddasu ar gyfer anghenion lleol.
- Sicrhau bod pawb yn deall bod angen sail gadarn o dystiolaeth, sy'n cael ei llywio gan Fframwaith Canlyniadau, ar gyfer effeithiau a chanlyniadau cyllid Cefnogi Pobl er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol.

Lle bo hynny'n addas, mae angen i'r Bwrdd Cynghori ystyried addasrwydd cynigion radical megis addasiadau posibl i'r trefniadau ariannu presennol i sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rhaglen.

Dylid ailedrych ar rôl a swyddogaeth y Bwrdd Llywio er mwyn asesu a all gyfrannu at weithredu'r Rhaglen neu a allai grwpiau gorchwyl a gorffen (gweler 21) adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Cynghori.

Dylai'r ffrydiau gwaith gael eu disodli gan grwpiau gorchwyl a gorffen ac iddynt gyfyngiadau amser, ac aelodaeth, cylch gwaith a llinellau atebolrwydd clir.

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r cyfleoedd am gynyddu dylanwad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol trwy ddefnyddio modelau comisiynu gwahanol megis Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau. Gall hyn ennyn diddordeb a chydweithrediad aelodau'r Pwyllgorau.

Mae angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng cylch gwaith y Rhaglen Cefnogi Pobl a meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedau ar y lefelau cenedlaethol a rhanbarthol:

- Dylai Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol edrych ar y

cysylltiadau rhwng Cefnogi Pobl a ffrydiau ariannu eraill Llywodraeth Cymru gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau'n Gyntaf a Dechrau'n Deg.
- Dylai'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gryfhau cysylltiadau gyda grwpiau iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol.

Dylai gweledigaeth strategol y Rhaglen a'i ffordd o wneud penderfyniadau, yn ogystal â'r disgwyliadau o ran perfformiad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, gael eu cyfleu'n eglurach:

- Bydd cyfarfodydd blynyddol neu bob chwe mis rhwng y Gweinidog, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, swyddogion allweddol o Lywodraeth Cymru a Chadeiryddion / Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cadarnhau gweledigaeth ac arweiniad strategol y Rhaglen.
- Mae angen i gofnodion cyfarfodydd, cynlluniau gwaith a dogfennaeth y Bwrdd Cynghori a'r Bwrdd Llywio gael eu cylchredeg yn fwy prydlon.
- Mae angen i benderfyniadau a diweddariadau arwyddocaol eraill i'r Rhaglen gael eu cyfleu'n gyson ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Dylid rhoi mwy o ryddid i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol addasu prosesau ac arferion ar gyfer anghenion lleol. Dylai gofynion monitro ac adrodd y Pwyllgorau fod yn addas i'r diben a dylid eu lleihau lle bernir bod angen hynny.

Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gyflawni rôl o adeiladu cynhwysedd i gynorthwyo'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i wireddu'r weledigaeth strategol. Gallai'r gweithgareddau gynnwys:

- Hwyluso cyfathrebu rhwng Pwyllgorau a'i gilydd er mwyn rhannu arferion da wrth gomisiynu a chyd-drafod â defnyddwyr gwasanaethau.

- Rhoi gwybod am weithgaredd ffrydiau gwaith.
- Datblygu rhwydweithiau sy'n bod eisoes ee rhwydwaith Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu disgrifiad cyffredinol o rôl sy'n amlinellu'r wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau y disgwylir gan gadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Dylid gadael rôl drefniadol Cadeirydd Pwyllgor i ddoethineb Pwyllgor unigol.

Dylai rôl y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol gael ei egluro a'i safoni trwy'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Dylid archwilio cyfleoedd i'r rôl roi mwy o sylw ar adeiladu partneriaethau a pherthynas gyda grwpiau rhanbarthol strategol eraill.

Dylid cynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd fwy ystyrlon a chynrychioliadol o grwpiau cleientiaid y Rhaglen, a dylai hyn ddod yn rhan o Fframwaith Canlyniadau'r Rhaglen. Dylai Llywodraeth Cymru rannu'r arferion da sy'n bod eisoes a dylai'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol edrych ar ffyrdd o ddatblygu dulliau o fesur perfformiad sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Awdur:
*Miller Research Ltd*
Katy Marrin
Heulwen Hudson
Nick Miller
Mair Smith
*Shelter Cymru*
Jennie Bibbings

30 Medi 2014
ISBN: 978-1-4734-2205-6